Cyfranogi

Fforwm Ieuenctid a Fforwm Iau Merthyr Tudful

Holl ddiben y Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm Iau yw 'Rhoi Llais i Blant a Phobl Ifanc'. Mae'r ddau fforwm yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fynegi barn ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy, a'u galluogi i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau lleol.

Darperir llawer o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, er enghraifft addysg, cyfleusterau ieuenctid a chyfleusterau hamdden, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau troseddau a diogelwch, a datblygiadau amgylcheddol a datblygiadau yn y cymunedau lleol. Gwneir penderfyniadau drwy'r amser o ran pa fath o wasanaethau fydd y rhain, pa un a oes eu hangen ar blant a phobl ifanc a sut y gallant eu defnyddio. Fel arfer, os yw plant a phobl ifanc yn helpu i wneud y penderfyniadau hyn, gall y gwasanaethau hyn fod yn fwy effeithiol ac yn fwy perthnasol i anghenon a dyheadau plant a phobl ifanc.

Mae syniadau a barn plant a phobl ifanc yn bwysig iawn o ran helpu i lunio'r dyfodol, wrth helpu i gynllunio gwasanaethau newydd a sicrhau bod gwasanaethau presennol yn gweithio'n well. Drwy'r Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm Iau, gall plant a phobl ifanc roi eu barn ar y penderfyniadau hyn, gallant gyflwyno eu materion eu hunain, trafod syniadau a chynnig awgrymiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu ac ati.

Mae pob llais yn bwysig, a gwrandewir ar bob llais.
Dylai pobl ifanc sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Fforwm Ieuenctid fod:

- Rhwng 11 – 25 oed
- Yn byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Am i'w llais gael ei glywed a gwneud gwahaniaeth.
- Am ddylanwadu ar benderfyniadau ar wasanaethau lleol.
- Am gwrdd â phobl newydd a dysgu pethau newydd.
- Am gael hwyl!

Dylai plant sydd am ymuno â'r Fforwm Iau fod:

- O dan 11 oed
- Yn byw ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Am wneud gwahaniaeth.
- Am ddylanwadu ar benderfyniadau ar wasanaethau lleol.
- Am gwrdd â phobl newydd a dysgu pethau newydd.
- Am gael hwyl!